

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Gwasanaeth Datblygu Addysg

HUNAN-WERTHUSIAD – TECLYN CYNNAL AWDIT

MODEL ENGHREIFFTIOL
Ysgol Afan Nedd

HUNANWERTHUSO YSGOL – CRYNODEB

- Yn seiliedig ar 7 cwestiwn allweddol o'r Fframwaith Arolygu Cyffredinol
- Cylch tair blynedd/ amserlen naw tymor
- Bydd adroddiad cryno yn cael ei gynhyrchu ar ddiwedd pob blwyddyn
- Yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr
- Yn seiliedig ar egwyddor o natur agored ac eglurder
- Bydd yn cynnwys cyswllt clir rhwng HWY a CDY

CYFLWYNIAD

Mae hunanwerthuso ysgol yn rhan hanfodol o'n hymagwedd at wella safonau Ysgol Afan Nedd. Diffinir y broses hunanwerthuso mewn amserlen naw tymor sy'n amlinellu ein hymagwedd tuag at sicrhau bod holl agweddau gweithgareddau a chyfrifoldebau'r ysgol yn cael eu gwerthuso a'u hasesu yn gyson ac yn drylwyr.

Bydd y broses yn mynd i'r afael â'r cyswllt hanfodol rhwng y broses hunanwerthuso a chynllunio gwella ysgol. Nid gwerthuso ysgol gyfan yw'r cyfan, ond cam cyntaf y broses o wella ysgol a gwella ansawdd. Gwerthuso ysgol gyfan yw congfaen y system sicrhau ansawdd yn ein hysgol. Mae'r ymagwedd hon yn darparu cyfle i gydnabod cyraeddiadau a phennu meysydd y mae angen sylw arnynt.

Bydd proses hunanwerthuso'r ysgol yn cynnwys monitro perfformiad yn erbyn y 7 cwestiwn allweddol o'r Fframwaith Arolygu Cyffredinol -

Safonau

1. Pa mor dda y mae'r dysgwyr yn cyflawni?

Ansawdd addysg a hyfforddiant

2. Pa mor effeithiol yw addysg, hyfforddiant ac asesu?
3. Pa mor dda yw'r profiadau dysgu wrth ddiwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?
4. Pa mor dda y gofelir am ddysgwyr, eu harwain a'u cefnogi?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

5. Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?
6. Pa mor dda mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn gwerthuso ac yn gwella ansawdd a safonau?

7. Pa mor effeithiol mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn defnyddio adnoddau?

Mae'r broses yn cael ei rheoli mewn ffordd y bydd pob maes yn cael ei drafod o leiaf unwaith yn ystod y cylch tair blynedd a bydd yn cynnwys cyfraniadau gan bob grŵp â diddordeb – disgyblion, rhieni, staff, CLI a'r gymuned ehangach lle bo'n briodol.

Bydd yr ysgol yn asesu ei pherfformiad yn erbyn y meini prawf a bennwyd yn y Fframwaith Arolygu Cyffredinol gan ddefnyddio'r safbwyntiau (1-4) a nodwyd yn y fframwaith. Bydd materion sy'n cael eu nodi'n 3 neu 4 yn ystod y broses yn cael eu cynnwys fel blaenoriaethau 1 neu 2 yng Nghynllun Datblygu presennol yr Ysgol. Bydd y CDY yn amlygu materion a bennwyd fel blaenoriaeth yn bennaf drwy broses hunanwerthuso'r ysgol. Bydd ein CDY yn cynnwys isafswm o faterion a bydd yn canolbwyntio ar y gweithgareddau hynny lle ceir datganiad o friad ar gyfer cyflawni canlyniadau a chyraeddiadau penodol.

Bydd y ddogfen archwilio'n cael ei defnyddio fel cofnod cyfredol o feysydd a aseswyd a meysydd a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer cynllunio ein gwelliant. Bydd adroddiad diwedd blwyddyn cryno yn cael ei lunio yn seiliedig ar y 7 cwestiwn allweddol o'r Fframwaith Arolygu Cyffredinol sy'n pennu meysydd y cyfeiriwyd atynt ac sy'n aros i gael eu trafod. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda phob grŵp â diddordeb gan gynnwys staff, rhieni, CLI a'r AALI.

SYLFAEN DYSTIOLAETH

Bydd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau yn cynnwys y ffynonellau gwybodaeth canlynol –

- Data'r ysgol
- Data pennu targedau
- Asesiadau'r disgyblion
- Arweinydd pwnc yn monitro - cwricwlwm
- Monitro UDRh – dysgu ac addysgu
- Monitro ac arolygu allanol
- Adolygiadau AAA
- Adolygiadau CDY
- Adroddiadau MPY
- Holiaduron a ddefnyddiwyd gyda disgyblion, rhieni ac eraill
- Adolygiadau is-bwyllgorau'r Corff Llywodraethu
- Adolygiadau polisïau a gweithdrefnau
- Cofnodion cyfarfodydd staff

CYFRIFOLDEBAU PENODOL

- Bydd arweinwyr pwnc yn monitro darpariaeth y cwricwlwm yn unol ag amserlen monitro pwnc y cytunwyd arno. Bydd adroddiad yn cael ei lunio a'i rannu gyda'r holl aelodau staff a'r Corff Llywodraethu.
- Bydd y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn cydlynu'r holiaduron a ddefnyddiwyd i archwilio barn pob grŵp â diddordeb, byddant yn dadansoddi data'r ysgol gyfan, byddant yn monitro prosesau hunanwerthuso'r ysgol ac yn adrodd ar yr holl faterion hyn i'r staff a'r CLI. Bydd y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gyfrifol am gydlynu pob mater arall sy'n perthyn i'r broses HWY.
- Bydd y Corff Llywodraethu'n dirprwyo cyfrifoldebau i'r is-bwyllgorau fel bo angen i fonitro materion sy'n ymwneud â datblygiad cynaliadwy, gweithgareddau allgyrsiol, rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch ac unrhyw faterion eraill fel bo'n briodol. Bydd adroddiadau'r is-bwyllgor yn cael eu rhannu gyda'r CLI llawn a'r staff cyfan.

CONFENSIYNAU ADRODD Y CYTUNWYD ARNYNT

Bydd adroddiadau diwedd blwyddyn yn gryno ac yn benodol. Byddant yn cael eu cynhyrchu ar ffurf pwyntiau bwled ac yn ymwneud â'r 7 cwestiwn allweddol. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r:

- Staff
- Rhieni
- CLI
- AALI
- Unrhyw grŵp arall â diddordeb ar gais gyda chytundeb Cadeirydd y Llywodraethwyr

Bydd adroddiadau arweinwyr pwnc yn gryno ac yn benodol. Byddant yn cael eu cynhyrchu ar ffurf pwyntiau bwled a byddant yn ymwneud â darpariaeth y cwricwlwm ar draws yr ysgol. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r:

- Staff
- CLI
- Unrhyw grŵp arall â diddordeb ar gais gyda chytundeb Cadeirydd y Llywodraethwyr

Bydd adroddiadau'r is-bwyllgor yn gryno ac yn benodol. Byddant yn cael eu cynhyrchu ar ffurf pwyntiau bwled a byddant yn ymwneud â materion a nodwyd gan y CLI cyfan. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r:

- Staff
- CLI

- Unrhyw grŵp arall â diddordeb ar gais gyda chytundeb Cadeirydd y Llywodraethwyr

Bydd MPY ac adroddiadau Adolygu Ysgol yn cael eu cynhyrchu gan Swyddog Datblygu Cynradd a bydd hefyd yn cyfrannu at y broses HWY. Bydd yr adroddiadau'n cael eu rhannu gyda'r:

- Staff
- CLI
- Unrhyw grŵp arall â diddordeb ar gais gyda chytundeb Cadeirydd y Llywodraethwyr

Bydd pob adroddiad yn canolbwyntio ar ansawdd perfformiad a safonau'r ysgol. Ni ddylent gyfeirio at na thynnu sylw at unrhyw aelod unigol o staff neu gymuned yr ysgol.

Mabwysiadwyd y polisi hwn gan yr ysgol ar _____ gyda chytundeb y staff a'r CLI.

Pennaeth - _____ Cadeirydd y Llywodraethwyr _____

***'Mae hunanwerthuso yn broses ddadlennol barhaus a pharhaol. Dyma wraidd gwella ysgolion.'* (John McBeath)**

Monitro – y broses o ddysgu amdanom ein hunain a defnyddio'r wybodaeth honno i wella'r ysgol - rhoi min ar yr atebolrwydd sydd gan ysgol i'w chymuned. Sut ydych chi'n gwybod bod eich ysgol yn perfformio'n dda? Dadansoddi'r strwythur a'i addasu er mwyn cynnal y deinamig. Nodwedd amlyca' ysgol sydd yn gwella, yw ei bod yn 'mynd i rywle', bod ganddi syniad o gyfeiriad. Mae monitro *perfformiad* yn greiddiol i'r broses o gynnal deinamig – o wybod fod yr ysgol yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Hunan-werthusiad – y broses o gywain gwbyodaeth a thystiolaeth ar berfformiad yr ysgol o wahanol ffynonellau. Mae angen i'r broses hunan-werthuso fod yn un trwyadl er mwyn sicrhau elfen gref o atebolrwydd. Dyma'r man dechrau ar gyfer cynllunio effeithiol ac ystyrlawn.

Cynllun Datblygu Ysgol – y broses o gydweithio i flaenoriaethu ar agweddau penodol a fydd yn gosod deinamig ar waith yn yr ysgol.

Cynllunio cwricwlaidd – cynllunio sydd yn cyfeirio'r addysgu, y dysgu a'r asesu

Datblygiad proffesiynol – ni ellir tanbrizio gwerth datblygiad proffesiynol. Mae ei effaith ar ddatblygiad yr ysgol yn hanfodol – mae datblygu staff yn gyfystyr â datblygu ysgol. Mewn ysgol ble mae'r rheolaeth yn adeiladol a phositif, gall athrawon a fyddai'n canfod pethau'n anodd fel arall, berfformio'n effeithiol. "A sense of direction, targets, self-evaluation, evidence: all crucial to school improvement, but how can they be given coherence? What is the means by which they are combined to form a strategy? The answer, to use jargon, is staff development. To use more jargon, it is the creation of a learning organisation in which every stakeholder - head, teachers, governors, as well as pupils - is learning all the time." Michael Barber, DfEE.

Addysgu – Y dystiolaeth fwyaf pwysig ynglŷn â pherfformiad ysgol yw'r mesur o'r hyn sydd yn digwydd o fewn yr ystafell ddosbarth. Os yw ansawdd ysgol yn cael ei fonitro yna, yn y fan hon y mae'n rhaid gwneud hynny. Os nad oes gan ysgol system ar gyfer monitro arfer dosbarth yna pa mor dda bynnag yw hi, fe fydd yn canfod newid anodd ymdopi ag

Dysgu – ydym ni'n ymwybodol o effaith y strwythur ar ddysgu'r disgyblion ac ar gyrhaeddiad y disgyblion? Ydy'r strwythur rheoli wedi'i gyfeirio at godi safonau, ac a ydym yn gallu mesur hyn? Does dim diben i'r strwythur os nad ydy e'n cael effaith ar y dysgu.

FFRAMWAITH HUNAN-WERTHUSO AR GYFER YSGOLION – AWDIT

CWESTIYNAU ALLWEDDOL O'R FFRAMWAITH AROLYGU CYFFREDIN

Safonau

1. Pa mor dda yw cyflawniadau'r dysgwyr?

Ansawdd addysg a hyfforddiant

2. Pa mor effeithiol yw'r gwaith addysgu, hyfforddi ac asesu?

3. I ba raddau y mae'r profiadau dysgu'n llwyddo i ddiwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

4. Pa mor dda yw ansawdd y gofal, yr arweiniad a'r cymorth a ddarperir i ddysgwyr?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

5. Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

7. Pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

CYD-DESTUN YR YSGOL

Nifer ar y gofrestr:	224.5 call						
Nifer y Dosbarthiadau / Cymhareb Disgybl: Athro/athrawes:	9 25:1						
Nifer ar y gofrestr AAA	Datganiadau: 5			Gweithredu Ysgol+: 22		Gweithredu Ysgol:29	
Prydau Ysgol am Ddim %:	38%						
Presenoldeb %		Tymor 1 ('02)	Tymor 2 ('02)	Tymor 3 ('02)	Tymor 4 ('03)	Tymor 5 ('03)	Tymor 6 ('03)
	CA1	92%	93%	91%	93%	95%	93%
	CA2	91%	94%	92%	94%	96%	95%
Gwaharddiadau:	Tymor 1 <i>Dim</i>	Tymor 2 <i>Dim</i>	Tymor 3 <i>Dim</i>	Tymor 4 <i>Dim</i>	Tymor 5 <i>Dim</i>	Tymor 6 <i>Dim</i>	
CDY Cyfredol – meysydd blaenoriaeth (2003-4) :	Rhifedd	TC1 Gwyddoniaeth	Darpariaeth AAA	Sgiliau Allweddol	Asesu	Safonau mewn DaTh/daeryddiaeth	
Blaenoriaethau y CDY blaenorol (2002-3):	Llythrennedd ar draws y cwricwlwm	Darpariaeth TGaCh	'Dewch I Feddwl'	Rheoli Perfformiad	Asesu	Safonau mewn cerddoriaeth	
Blaenoriaethau y CDY blaenorol (2001-2) :	Llythrennedd	Partneriaethau Ewropeaidd	Rheolaeth Ymddygiad	Cynllunio'r cwricwlwm	Rôl y cydlynnydd	Safonau mewn celf / hanes	

Tystiolaeth cyd-destunol arall

4 o athrawon newydd wedi'u penodi ers Medi 1998 (gan gynnwys athro Bl 6 newydd ym Medi 2000)

Dirprwy Bennaeth wedi'i benodi Medi 2001

Marc Safon Sgiliau Sylfaenol wedi'i ddyfarnu Mehefin 2001

Arolygiad Chwefror 2001

Cyd-destun

Yr Ysgol a'i Blaenoriaethau

Lleolir Ysgol Gynradd Afan Newydd yn ardal Alltfaen ger tref Aber-nedd. Mae'n rhan o ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae 224.5 o ddisgyblion tair i 11 oed ar y gofrestr, 199 o'r Derbyn i Flwyddyn 6. Mae'r rhan fwyaf yn dod o Alltfaen a'r gweddill o'r ardal o amgylch.

Yn gyffredinol, mae tri chwarter o'r ardal a wasanaethwn o dan anfantais economaidd, gyda'r chwarter arall heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae'r plant a dderbynnir yn flynyddol yn cwmpasu'r ystod allu lawn, gan gynnwys llawer o ddisgyblion llai galluog a rhai disgyblion galluog. Mae rhyw 37.8% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae tua 99.6% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif neu unig iaith. Mae'r ysgol wedi nodi bod ar 56 o'r disgyblion angen cefnogaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2001.

Mae'r ysgol yn datgan 'Rydym yn ymdrechu i annog disgwyladau uchel gan y disgyblion a'r staff fel ei gilydd mewn amgylchedd trefnus, cyfeillgar, lle caiff plant y cyfle i gaffael annibyniaeth a sgiliau bywyd.'

Mae'r ysgol wedi pennu'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer gwelliant yn ein Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) ar gyfer 2003-2004:

- codi safonau mewn mathemateg a pharhau gyda'r ymgyrchoedd cyfredol i wella TC1 gwyddoniaeth;
- gwella effeithiolrwydd y ddarpariaeth anghenion arbennig;
- sicrhau bod staff yn gwahaniaethu gweithgareddau i ddiwallu anghenion unigolion;
- datblygu strategaethau hunanwerthuso cysylltiedig ag addysgu a dysgu i'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi gorfod ymdopi â throsiant staff sylweddol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf – 5 o athrawon newydd, gan gynnwys penodi dirprwy bennaeth newydd (Medi 2001). Mae'r nifer ar y gofrestr wedi lleihau'n gyson yn ystod y 3 blynedd diwethaf, o 260 o ddisgyblion i'r nifer presennol ar y gofrestr. Ymddengys bod y niferoedd disgwyliedig o ddisgyblion ar gyfer y 3 blynedd nesaf hefyd yn cadarnhau'r

tueddiad hwn. Mae'r CLI wedi defnyddio cryn dipyn o'r arian wrth gefn i gynnal y lefelau staffio. Mae'r niferoedd symudedd yn eithaf uchel, gyda rhyw 15% o boblogaeth yr ysgol (32 o ddisgyblion) yn symud i mewn neu allan yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2002-3).

Llwyddodd yr ysgol i sicrhau arian Comenius 2.2 i gynnal prosiect partneriaeth ysgol gydag ysgolion yn Nenmarc, yr Eidal a Sbaen.

RHEOLI HUNANWERTHUSIAD YSGOL – AMSERLEN NAW TYMOR

Cyfrangiad	Tymor 1	Tymor 2	Tymor 3	Tymor 4	Tymor 5	Tymor 6	Tymor 7	Tymor 8	Tymor 9
1	Gosod targedau Ymweliad MPY (Wedi'i gofnodi a'i gytuno. Adroddiad i'w rannu gyda'r CLI) Adolygiad AAA Adolygiad RhP/Cynllunio (Wedi'i gofnodi a'i gytuno)	RhP Gosod a threfnu cyllideb	Adolygu'r CDY a'i ddatblygiad (Canlyniadau cytunedig wedi'u cofnodi) Asesiadau Dadansoddi data - diweddariad Diweddariad HWY RhP	Pennu targedau Ymweliad MPY (Wedi'i gofnodi a'i gytuno. Adroddiad i'w rannu gyda'r CLI) Adolygiad AAA Adolygiad RhP/Cynllunio (Wedi'i gofnodi a'i gytuno)	Adolygiad Ysgol Gyfan (mewnol / allanol) RhP Gosod a threfnu cyllideb	Adolygu'r CDY a'i ddatblygiad (Canlyniadau cytunedig wedi'u cofnodi) Asesiadau Dadansoddi data - diweddariad Diweddariad HWY RhP	Pennu targedau Ymweliad MPY (Wedi'i gofnodi a'i gytuno. Adroddiad i'w rannu gyda'r CLI) Adolygiad AAA Adolygiad RhP/Cynllunio (Wedi'i gofnodi a'i gytuno)	RhP Gosod a threfnu cyllideb	Adolygu'r CDY a'i ddatblygiad (Canlyniadau cytunedig wedi'u cofnodi) Asesiadau Dadansoddi data - diweddariad Diweddariad HWY RhP
2	Monitro pwnc-benodol – laith a Chelf (AP i gynhyrchu adroddiad a rennir gyda'r staff a'r CLI)	Monitro pwnc-benodol – Mathemateg a Hanes (AP i gynhyrchu adroddiad a rennir gyda'r staff a'r CLI) Monitro agweddau – Adeiladau a threfniadau gofal a chefnogaeth	Monitro pwnc-benodol – Gwyddoniaeth ac Add Gorff (AP i gynhyrchu adroddiad a rennir gyda'r staff a'r CLI)	Monitro pwnc-benodol – laith a Cherddoriaeth (AP i gynhyrchu adroddiad a rennir gyda'r staff a'r CLI)	Monitro pwnc-benodol – Mathemateg a DTh (AP i gynhyrchu adroddiad a rennir gyda'r staff a'r CLI) Monitro agweddau – ADY a Chyfle Cyfartal	Monitro pwnc-benodol – Gwyddoniaeth a TG (AP i gynhyrchu adroddiad a rennir gyda'r staff a'r CLI)	Monitro pwnc-benodol – laith ac Add Gref / ABCh (AP i gynhyrchu adroddiad a rennir gyda'r staff a'r CLI)	Monitro pwnc-benodol – Mathemateg a Daearyddiaeth (AP i gynhyrchu adroddiad a rennir gyda'r staff a'r CLI) Monitro agweddau - Asesiad	Monitro pwnc-benodol – Gwyddoniaeth a'r Cwricwlwm Cymreig (AP i gynhyrchu adroddiad i'w rannu gyda'r staff a'r CLI)
3	Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad Adolygu portffolios pwnc/Adolygiad Polisi	Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad Holiadur rhieni Adolygu portffolios pwnc/Adolygiad Polisi	Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad Adolygiad is-bwyllgor CLI o weithgareddau allgyrsiol (adroddiad)	Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad Holiadur staff Adolygu portffolios pwnc/Adolygiad Polisi	Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad Adolygu portffolios pwnc/Adolygiad Polisi	Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad Adolygiad is-bwyllgor CLI o ddatblygiad cynaliadwy (adroddiad)	Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad Holiadur disgyblion Adolygu portffolios pwnc/Adolygiad Polisi	Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad Holiadur CLI/ cymuned Adolygu portffolios pwnc/Adolygiad Polisi	Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad Adolygiad is-bwyllgor CLI o reolaeth ariannol (adroddiad)

DADANSODDI DATA'R YSGOL

Beth yw safon ein perfformiad?

CA1

Saesneg (AA)	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L2+	76%	84%	80%	62%	73%	78%	%	%	%	%	%	%

Mathemateg (AA)	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L2+	89%	86%	86%	75%	92%	83%	%	%	%	%	%	%

Mathemateg (P)	1997	1998	1999	2000	2001
L2+	89%	86%	82%	84%	92%

Gwyddoniaeth	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L2+	78%	73%	77%	67%	83%	81%	%	%	%	%	%	%

DPC	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L2+	76%	71%	75%	58%	73%	74%	%	%	%	%	%	%

Sut rydym yn cymharu ag ysgolion eraill tebyg -

CA1 – Meincnodi Cenedlaethol

Yn ystod y 6 blynedd diwethaf gwelsom welliant a gafodd ei gynnal yng nghyrhaeddiad disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol.

Yng Nghyfnod Allweddol 1 rydym yn perfformio'n dda yn gyson mewn Mathemateg. Mae'r perfformiad Gwyddoniaeth wedi gwella'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. O ystyried sylfaen ieithyddol llawer o'n disgyblion wrth eu derbyn i'r ysgol, mae'r canlyniadau Saesneg yn iach iawn. Mae Saesneg yn parhau'n faes targed ar gyfer gwelliant yn y ddau gyfnod allweddol.

O ran meincnodi mae'r ysgol yn gyson yn perfformio tua'r chwartelau uchaf (1-3) ym mhob pwnc.

Saesneg	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
1-7	3	1	3	5	5	3						

Mathemateg (AA)	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
1-7	1	2	3	5	1	3						

Mathemateg (P)	1997	1998	1999	2000	2001
1-7	1	2	3	3	3

Gwyddoniaeth	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
1-7	3	5	5	7	4	5						

DPC	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
1-7	2	3	3	7	3	3						

CA2

Saesneg	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L4+	41%	67%	47%	65%	62%	67%	70%	%	%	%	%	%	%

Mathemateg	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L4+	60%	74%	58%	71%	73%	63%	64%	%	%	%	%	%	%

Gwyddoniaeth	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L4+	66%	84%	76%	80%	84%	77%	83%	%	%	%	%	%	%

DPC	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L4+	66%	84%	76%	56%	58%	56%	58%	%	%	%	%	%	%

CA2 – CYFLAWNWYR UCHEL

Saesneg	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L5	%	%	%	8%	7%	19%	28%	%	%	%	%	%	%

Mathemateg	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L5	%	%	%	20%	11%	19%	15%	%	%	%	%	%	%

Gwyddoniaeth	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L5	%	%	%	39%	22%	21%	42%	%	%	%	%	%	%

DPC	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
L5	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%

Sut rydym yn cymharu ag ysgolion eraill tebyg -

CA2 – Meincnodi Cenedlaethol

Yng Nghyfnod Allweddol 2 dengys y canlyniadau welliant a gynhaliwyd mewn Saesneg a Gwyddoniaeth, tra bod y canlyniadau Mathemateg yn amrywiol. O ran meincnodi mae'r ysgol yn gyson yn perfformio'n uwch na'r chwarterl canol mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg, ac mae'r perfformiad yn aml yn y chwarterl uchaf (1) yn y ddau bwnc. Yn ystod y chwe blynedd diwethaf mae'r dangosydd pynciau craidd wedi bod yn gyson uwch na'r cyfartaledd meincnodi. Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn cyflawni lefel 5 yn yr holl bynciau craidd ac mae'r nifer hwn wedi cael ei gynnal neu ei wella'n gyson yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

Saesneg	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
1-7	1	5	2	3	3	3						

Mathemateg	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
1-7	1	3	1	1	3	3						

Gwyddoniaeth	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
1-7	1	1	1	1	3	3						

DPC	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
1-7	1	3	1	3	3	3						

FFACTOR PRYDAU YSGOL AM DDIM (PYDd)

PYDd	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
%		36	37	36	37	37						

CA2 Gwahaniaethau rhyw – Ni theimlir bod materion rhyw sydd o bwys. Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd mae'r bechgyn yn gwneud yn well na'r merched. Mae angen i ni gofio'r sgôr negyddol yn erbyn bechgyn yn Saesneg a sgoriau negyddol y merched (a welir fel sgôr bositif i fechgyn) mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth.

LEFEL 4 +

Gwahaniaeth Rhyw	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
Bachgen/Merch Saesneg		-7%	-2%	6%	-24%	3%	%	%	%	%	%	%
Bachgen/Merch Mathemateg		8%	5%	2%	-6%	9%	%	%	%	%	%	%
Bachgen/Merch Gwyddoniaeth		10%	6%	9%	-3%	2%	%	%	%	%	%	%

LEFEL 5

Gwahaniaeth Rhyw	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008
Bachgen/Merch Saesneg			5%	4%	-6%	18%	%	%	%	%	%	%
Bachgen/Merch Mathemateg			-6%	20%	3%	18%	%	%	%	%	%	%
Bachgen/Merch Gwyddoniaeth			13%	4%	17%	9%	%	%	%	%	%	%

Pennu targedau

Mae'r data pennu targedau'n dangos cyfatebiaeth gynyddol rhwng amcangyfrifon a chanlyniadau go iawn. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos cyfatebiaeth gyffredinol gyda ffiniau'r FFT. Mae cymharu gyda'r rhagfynegydd FFT yn dangos bod yr ysgol yn perfformio'r tu hwnt i ffiniau'r targedau a amcangyfrifwyd mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth, ac yn gyfforddus o fewn y ffiniau yn Saesneg (TASau 2000). Mae hyn hefyd yn wir am y targedau a bennwyd gan yr ysgol rhwng 2001 a 2003, ac eithrio Saesneg yn 2003, lle mae'r ysgol yn rhagweld perfformiad y tu hwnt i'r ffiniau a amcangyfrifwyd yn y rhagfynegydd FFT.

Cyfnod Allweddol 2

	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
Saesneg (L4+) %	65	62(3)/ 57 61-75	67(3) /59	70(3) /65 60-81	c/70 57-75	c/71 61-69	c/75 77-83	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y
Mathemateg (L4+) %	71	73 (1) /59 57-71	63(3) /63	64(3) /72 54-72	c/67 54-72	c/67 56-71	c/77 75-86	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y
Gwyddoniaeth (L4+) %	80	84 (1) /75 70-77	77(3) /67	83(3) /87 69-80	c/82 66-76	c/82 70-70	c/84 83-83	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y
% yn cyflawni'r DPC	56	58 (3) /55 x-y	56(3) /59	58(3) /63 x-y	c/62 x-y	c/63 x-y	c/67 x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y
% y bechgyn yn cyflawni'r DPC		64/48	44/75	56/66	/57	/50	/60	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y
% y merched yn cyflawni'r DPC		50/63	57/46	59/59	/66	/78	/71	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y	c/a x-y

x-y = ystod a amcangyfrifwyd gan yr AALI (FFT) c = canlyniad / a = amcan blaenorol yr ysgol

Targedau 2000 – cyflwynwyd 99

Targedau 2001 – cyflwynwyd 00

Targedau 2002 – cyflwynwyd 01

Targedau 2003/4/5 – cyflwynwyd 01

Targedau FFT 2000 i 2003 HEN fformat. Targedau FFT 2004 fformat NEWYDD.

Cwestiwn Allweddol 1 - **SAFONAU**- Pa mor dda yw cyflawniadau'r dysgwyr?

Cwestiynau Allweddol – parthed: eu llwyddiant wrth gyrraedd amcanion dysgu y cytunwyd arnynt-	Asesiad				Sail Tystiolaeth	Blaenoriaeth CDY		
	1	2	3	4		BI1	BI2	BI3
Ydy dysgwyr yn cyflawni safonau da o ran <ul style="list-style-type: none"> • eu gwybodaeth, • eu dealltwriaeth • a'u medrau? 		✓ ✓ ✓			Ansawdd y dysgu – da yn 85% o'r gwersi a arsylwyd yn ystod <u>monitro mewnol</u> yn ystod y 3 blynedd diwethaf (arsylwi 42 o wersi) "Yn y 63 gwerns neu rannau o wersi a arsylwyd, barnwyd bod y safonau cyflawniad yn dda iawn yn 11%, yn dda yn 65% ac yn foddhaol yn 24%." <u>Adroddiad arolygu</u> (Chwef 2001) <u>Adroddiadau monitro</u> arweinwyr pwnc hefyd yn dangos tystiolaeth o safonau da.			
Ydy dysgwyr yn cyflawni <ul style="list-style-type: none"> • targedau dysgu y cytunwyd arnynt; • cyrraedd lefelau addas o ran sgiliau allweddol • a gallu dwyieithog? 		✓	✓		Cyflwynwyd strwythur ar gyfer rhannu targedau ansoddol gyda'r holl ddisgyblion yn yr holl bynciau craidd ym Mai 2001 – gweithredol o Fedi 2001. Strwythur heb ei werthuso eto. SA wedi'u nodi yn STP. Arfer heb ei werthuso. Nododd monitro AALI diweddar arfer da. Gallu dwyieithog heb ei ddatblygu. Disgyblion yn cyflawni'n dda yn yr addysgu a'r gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. Ni ddefnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu. (Dyddiedig)		✓	✓
Ydy dysgwyr yn llwyddo beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol?								
Ydy canlyniadau cymharu'n ffafriol â'r <ul style="list-style-type: none"> • cyfartaleddau cenedlaethol a • meincnodau lleol • a chenedlaethol? 		✓			Gweler y daflen Dadansoddi Data			
Ydy tueddiadau o ran perfformiad yn dangos gwelliant parhaus neu'n cynnal		✓			Gweler y daflen Dadansoddi Data			

safonau uchel?									
----------------	--	--	--	--	--	--	--	--	--

CWESTIYNAU ALLWEDDOL – parthed: eu cynnydd wrth ddysgu	Asesiad				Sail Tystiolaeth	Blaenoriaeth CDY		
	1	2	3	4		B11	B12	B13
Ydy dysgwyr yn caffael <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth neu sgiliau newydd, • yn datblygu syniadau ac yn • cynyddu eu dealltwriaeth? 		✓			Monitro arweinydd pwnc – edrych ar lyfrau a siarad â disgyblion – dangos bod gan ddisgyblion afael dda ar y gwaith yn yr holl bynciau. Yn y rhan fwyaf o achosion maent yn medru trafod eu syniadau'n hyderus a chyda dealltwriaeth. Gweler <u>adroddiadau'r arweinwyr pwnc.</u>			
Ydy dysgwyr yn deall <ul style="list-style-type: none"> • yr hyn y maent yn ei wneud, • pa mor llwyddiannus yw eu cynnydd • a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwella? 		✓			Dengys ffurflenni arsylwi gwersi (monitro'r addysgu a dysgu gan y Tîm Uwch-reolwyr - parhaus) fod y disgyblion yn chwarae rhan bwysig yn y gwersi. Nodwyd arfer da a'i rannu ar draws yr ysgol lle roedd – <ul style="list-style-type: none"> • staff yn gyson yn rhannu amcanion gwersi. • gosod targedau datblygedig (hefyd adborth cadarnhaol i Adroddiadau Blynyddol gan rieni) • yr holiadur rhieni yn mynegi boddhad 86% gyda'r agwedd hon. Angen canfasio barn y disgyblion. 		✓	
Ydy dysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran eu potensial ac yn symud ymlaen i'r cam dysgu nesaf?			✓		Nid yw'r gweithdrefnau asesu wedi cael eu gwerthuso. Mae asesiadau pynciau craidd yn cynnwys trosolwg cyffredinol o gynnydd disgyblion. Mae angen edrych ar y defnydd o asesiadau i gael effaith ar ddysgu yn y dyfodol. Mae angen mynd i'r afael ag asesu'r pynciau sylfaen. Polisi Asesu i'w adolygu yn hydref 2004.	✓		

CWESTIYNAU ALLWEDDOL – parthed - Datblygiad eu sgiliau personol, cymdeithasol a dysgu	Asesiad				Sail Tystiolaeth	Blaenoriaeth CDY		
	1	2	3	4		BI1	BI2	BI3
Ydy dysgwyr yn <ul style="list-style-type: none"> dangos cymhelliant, yn gwneud gwaith cynhyrchiol ac yn defnyddio'u hamser yn effeithiol? 		✓			Mae gwaith monitro'r Tîm Uwch-reolwyr yn dangos bod y disgyblion yn ymateb yn dda mewn gwersi. Mae gwerthuso'r amser a dreuliwyd ar dasg mewn 3 gwrs yn dangos bod disgyblion yn defnyddio'u hamser yn effeithiol. (Gweler yr adroddiad monitro a gynhyrchwyd gan y Pennaeth a'r Dirprwy yn Nhymor y Gwanwyn 2002)			
<ul style="list-style-type: none"> y addedd yn gyfrifol a pharchu eraill? 	✓				Dim gwaharddiadau yn y 4 blynedd diwethaf / Llythron cymeradwyaeth gan amryw sefydliadau a chyrrff yn cyfeirio at ymddygiad da iawn y disgyblion yn ystod gweithgareddau ac ymweliadau. Cofnod ymddygiad da iawn i'w weld yn ffeiliau Cofnod Cyrhaeddiad y disgyblion.			
<ul style="list-style-type: none"> cyrraedd lefelau presenoldeb a phrydlondeb uchel? 			✓		Gweler data presenoldeb cyd-destun yr ysgol. Mae'r CLI wedi pennu targedau i wella presenoldeb – gweler cofnodion y Corff Llywodraethu. Targedau i'w hadolygu hydref 2004. Dangosodd ymarferiad monitro prydlondeb diweddar (Ebrill 2003) fod llai na 3% o boblogaeth yr ysgol yn methu cyrraedd yn brydlon. Mae profion dirybudd cyson yn cadarnhau hyn. Gweler hefyd Cwestiwn Allweddol 4.	✓		
<ul style="list-style-type: none"> datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol, gan gynnwys y sgiliau angenrheidiol i gynnal dysgu gydol oes? 			✓		Dengys cyfarfod staff diweddar (lon 02, gweler cofnodion cyfarfodydd staff) i adolygu'r Cynllun Gweithredu ôl-arolwg nad yw'r staff yn gwbl fodlon ar y cynnydd a wnaed o ran y mater hwn.	✓		

<ul style="list-style-type: none"> sicrhau cynnydd da o ran eu datblygiad personol, cymdeithasol, moesol ac ehangach? 		✓		<p>Dengys Adolygiad (a wnaed gan is-bwyllgor y CLI, ac a gyflwynwyd i'r CLI llawn yn Hydref 2000) o weithgareddau allgyrsiol dystiolaeth o amrywiaeth o brofiadau sy'n cael effaith bositif ar ddysgu disgyblion.</p> <p>Gweler y rhestr ymweliadau yn Adroddiad Blynyddol y CLI i'r Rhieni.</p>			
<ul style="list-style-type: none"> amlygu ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas 		✓		<p>Dim tystiolaeth – wedi'i seilio a 'deimlad ym mêr yr esgyrn'. Adolygu'r polisi CC Medi 2003. I'w adolygu Medi 2004.</p>			
<ul style="list-style-type: none"> yn barod i gymryd rhan yn effeithiol yn y gymuned. 		✓		<p>Cyfranogiad da mewn gweithgareddau cymunedol – gweler mater 5.</p>			

CWESTIWN ALLWEDDOL 2 - Ansawdd addysg a hyfforddiant - Pa mor effeithiol yw'r addysgu a'r asecu?

CWESTIYNAU ALLWEDDOL – parthed - Pa mor dda y mae'r addysgu'n diwallu anghenion dysgwyr	Aseciad				Sail Tystiolaeth	Blaenoriaeth CDY		
	1	2	3	4		BI1	BI2	BI3
Ydy'r dysgu yn <ul style="list-style-type: none"> • symbylu ac yn • herio dysgwyr i sicrhau rhagoriaeth? 		✓			Gweler Cwestiwn Allweddol 1, mater 1.			
<ul style="list-style-type: none"> • sefydlu perthynas waith dda sy'n hybu'r dysgu? 		✓			Mae nodiadau arsylwi gwersi arweinwyr tîm RhP yn dangos bod y berthynas yn y gwersi yn dda neu'n well ym mhob sesiwn arsylwi.			
